**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**
**Minister for Social Justice**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf JH/3178/21

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Adrian.Crompton@audit.wales

8 Hydref 2021

Annwyl Adrian,

**Ymateb i Adroddiad Archwilio Cymru *'Felly, Beth sy'n Wahanol? Canfyddiadau o Archwiliadau Egwyddor Datblygu Cynaliadwy'r Archwilydd Cyffredinol'***

Diolch ichi a'ch tîm am eich gwaith gwerthfawr wrth archwilio'r 44 o gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac am roi adroddiad i'r Senedd ar ganfyddiadau allweddol y gwaith hwn. Hwn oedd y cyfnod adrodd cyntaf i'r archwiliadau hyn gael eu gwneud ac maent wedi rhoi cipolwg defnyddiol ar sut y mae cyrff cyhoeddus yn manteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan y ddeddfwriaeth i wneud pethau yn wahanol.

Rwyf yn falch i'ch adroddiad ganfod bod cyrff cyhoeddus yn gallu dangos eu bod yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ond cydnabyddaf y gellir gwneud mwy. Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda chyrff cyhoeddus fel teulu o gyrff sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf i wella'n barhaus sut y mae'r ffyrdd hyn o weithio'n cael eu gwireddu yn ein gwaith.

Fel y cytunwyd rhwng ein swyddogion, gohiriwyd ein hymateb ffurfiol i'ch adroddiad i gymryd i ystyriaeth gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'i ymchwiliad i'r rhwystrau i roi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith.

Yn ein hymateb i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus rydym wedi rhoi ein hymateb i Argymhelliad 7 sy'n crynhoi'r un materion a danlinellir yn argymhelliad 2 o'ch adroddiad ynghylch a ddylid ychwanegu cyrff cyhoeddus at y rhai sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant yn y Ddeddf. Mae hyn yn cadarnhau y byddwn yn adolygu'r rhestr o gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf erbyn haf 2022. Byddwn yn sicrhau bod swyddogion yn

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


ymgysylltu â chi a'ch tîm wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo, ac yn cymryd i ystyriaeth y sylwadau o'ch adroddiad yn y gwaith hwn, ac unrhyw oblygiadau ar eich gwaith.

Bydd eich adroddiad, ac adroddiad y Comisiynydd trwy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol, yn parhau i lywio'r sgwrs am gam nesaf rhoi'r Ddeddf ar waith a bydd yn fan cychwyn ar gyfer y meysydd hynny y mae angen inni fynd i'r afael â hwy i wireddu buddion y ddeddfwriaeth. Rwyf yn cytuno â chasgliadau'r adroddiad bod gan y Ddeddf y potensial i ddarparu nod cyffredin a diwylliant cyson, a'i rôl wrth helpu i fynd i'r afael â'r heriau sylweddol y mae Cymru'n eu hwynebu. Fel rhan o'n gwaith ar Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol rydym yn cynnal sesiynau penodedig â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar sut i ystyried tueddiadau tebygol at y dyfodol fel rhan o'u proses asesu llesiant. Byddwn yn adeiladu ar y gweithdai hyn yn sgil cyhoeddi'r adroddiad i ganiatáu i'r ffordd hirdymor o weithio ymwreiddio ymhellach yn y cyrff cyhoeddus hynny sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf. Rydym yn gweithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru i gefnogi hyn.

Mae eich adroddiad yn argymell bod y Senedd a Llywodraeth Cymru'n rhoi ystyriaeth ôl-ddeddfwriaethol i'r Ddeddf i ymchwilio i sut y gallwn oresgyn rhwystrau i roi'r Ddeddf ar waith a sut y gall Cymru barhau i fod ar flaen y gad o ran llesiant. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y Ddedddf yn dal i sbarduno newid yng Nghymru. Er hynny, o gofio hyd a lled y sylwadau yn y tri adroddiad, rydym o'r farn y dylem ganolbwyntio ar fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn a gwella ymwybyddiaeth o'r Ddeddf a chymhwyso'r Ddeddf gan gyrff cyhoeddus dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Byddwn, er hynny, yn ymgysylltu â'r Senedd os bydd am roi ystyriaeth ôl-ddeddfwriaethol i'r Ddeddf ac yn adolygu'r sefyllfa hon yn 2023 ar sail ein gwaith parhaus i roi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith a chyda chyfranogiad y fforwm rhanddeiliad cenedlaethol a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r argymhelliad i sicrhau bod Cymru'n dal i fod ar flaen y gad o ran llesiant yn argymhelliad yr wyf yn cytuno'n llwyr ag ef. Rydym yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi arwain y ffordd wrth ddeddfu ar gyfer y dyfodol trwy'r Ddeddf. Yn gynharach eleni sefydlais Fforwm Rhanddeiliad Cenedlaethol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i gefnogi rhoi'r Ddeddf ar waith. Mae gan y fforwm hwn gylch gwaith penodol sef cefnogi gweithgareddau i fynd i'r afael â'r rhwystrau i roi'r Ddeddf ar waith. Y llynedd, ymunodd Llywodraeth Cymru â Rhwydwaith Llywodraethau'r Economi Llesiant (WEGo) ochr yn ochr â'r Alban, Gwlad yr Iâ, a'r Ffindir sydd i gyd yn rhannu dyheadau tebyg ar gyfer hybu'r agenda lesiant yn eu priod wledydd. Rydym yn parhau i ymgysylltu â'n cymheiriaid i rannu syniadau ac arferion i ymgorffori llesiant yng ngwaith y Llywodraeth er mwyn bod ar flaen y gad o hyd o ran gwella llesiant. Mae'r cyhoeddiad gan Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig i sefydlu mecanweithiau newydd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn agenda'r Cenhedloedd Unedig yn dangos ein bod yn rhoi arweiniad ar lesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Yr eiddoch,



**Jane Hutt AS/MS**
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice